CYNGOR CYMUNED LLANFIHANGEL Y PENNANT

**Cofnodion o gyfarfod o’r Cyngor a gynhaliwyd Nos Lun yr 8fed o Ebrill 2024 am 7.00yh yn y Ganolfan, Abergynolwyn.**

Presennol; Cyng. Emrys Thompson, Elwyn Evans, Robert D Jones, Gwynedd Roberts, Steve Lewis, Eleri Puw, Miriam Webb, Bethan Lawton (Cyngor Gwynedd) a Huw T Jones (Clerc)

1. Estynwyd groeso cynnes i bawb gan y Cadeirydd Emrys Thompson.
   Roedd ymddiheuriadau i law gan Cyng Dylan Jarman.

2. Gwahoddwyd ddatganiadau o ddidordeb am faterion ar yr agenda, a nododd Cyng Robert Jones ddiddordeb yn y cais gan Glybiau Ffermwyr Ieuainc Meirionnydd.
   Nodwyd nad oedd unrhyw gais i gael cyflwyniadau gan aelodau o’r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. **Cadarnhawyd gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 11eg o Fawrth** ar gynnig Cyng. Gwynedd Roberts a’I eilio gan Cyng Eleri Puw.

4. **Materion yn codi**

a) **Materion Priffyrdd/llwybrau** – cyfeiriwyd at y gwrych a oedd yn gor-dyfu ar Heol Llanegryn, a bod cadarnhad fod Cyngor Gwynedd wedi ysgrifennu eto at berchennog rhif 6.

   Trafodwyd y syniad o wneud llwybr o giat Heol y Dwr i fynny at fainc yn y Cae chwarae. Roedd Rheilffordd Talyllyn wedi cynnig y byddent yn helpu gyda’r gost. Penderfynwyd, yn dilyn pleidlais, i ofyn am bris i gael syniad o’r gost yn y lle cyntaf. Byddai’r Clerc yn cael gair gyda G L Jones, Playgrounds, Bethesda.

b) **Rheilffordd Talyllyn** – yng nghyswllt y prosiect wagen lechi, darllenwyd ymateb Anna Lewis o Gyngor Gwynedd oedd yn dweud y gellid gwneud cais o dan gynllun LleCHI LleNi - cais y loteri. Byddent yn gwybod a yw’r cais loteri yn llwyddiannus erbyn diwedd Mehefin. Aethpwyd ymlaen I drafod a fyddai modd gwneud cais drwy Cronfa Cymunedau Eryri, a byddai’r Clerc yn cysylltu gyda’r Parc Cenedlaethol yn y lle cyntaf, ac yna gyda Anna Lewis.

c) **Coeden yn difrodi wal** – nid oedd diweddariad, a byddai hyn ar yr agenda y tro nesaf.

d) **Rhestr asedau y Cyngor** – cadarnhawyd y ffigwr o £19114 fel yn y cofnod cyfarfod diwethaf, gan ychwanegu £1 ar gyfer y llwybr rhwng 1 Maesmeillion a Riverside Café.

**5. Materion Cynllunio**

   Cadarnhwyd nad oedd unrhyw faterion ers y cyfarfod diwethaf.

6. **Materion Cyllid.**

a) Anfonebau;

Cytunwyd, ar gynnig Cyng Robert Jones a'I eilio gan Cyng Miriam Webb I dalu **yswiriant y Cyngor, sef £345.55**. Nodwyd fod y cyfan wedi ei ddanfon allan I'r Cynghorwyr ymlaenllaw, a chadarnhawyd fod y gorchudd yn ddigonol.

Cytunwyd, ar gynnig Cyng Eleri Puw a'I eilio gan Cyng Steve Lewis I dalu anfoneb **Aelodaeth Un Llais Cymru am 2024-25 am gyfanswm o £94..**

b) Ceisiadau am arian;

> Trafodwyd llythyr **Clybiau Ffermwyr Ieuainc Meirionnydd,** ynghyd a'r fantolen oedd wedi ei danfon I'r Cynghorwyr. Yn dilyn pleidlais, cytunwyd, ar gynnig Cyng Gwynedd Roberts a'I eilio gan Eleri Puw **i gyfrannu £100.** (cafwyd datganiad diddordeb gan Cyng Robert D Jones pan drafodwyd hyn, ac roedd wedi arwyddo y ffurflen)

c) Amlinellwyd y gohebiaeth gan Archwilio Cymru am archwiliad 2023-24, yngyd a e-bost gan Bleddyn Rhys o Uned Archwilio Cyngor Gwynedd.

Cyflwynwyd cyfrifon 2023-24, yn swyddogol i'r Cyngor gan y Clerc. Cyfeiriwyd at yr holl gofnodion, y dogfennau cyllid a'r crynodeb, ac chadarnhwyd fod y cyfan yn barod iw cyflwyno I'r Archwilydd mewnol maes o law.

Cyfeiriodd y Clerc at yr Adroddiad Bioamrywiaeth yr oedd wedi ei baratoi mewn drafft, a byddai yn ei ddanfon I'r Cynghorwyr.

Cadarnahwyd y balansau (8.04.24) sef Cyfri cyffredinol £6311.57 a cyfrif Business Reserve £18,538.98.

**7. Adroddiad Cynghorydd Beth Lawton (Cyngor Gwynedd)**

Cyfeiriodd Cyng Beth Lawton at Grant Llesiant o £500 a oedd ar gael ar gyfer digwyddiadau lleol, ac a allai fod o gymorth I'r Ganolfan.

Cadarnhaodd ei bod wedi cysylltu gyda'r Adran Briffyrdd ynglyn a'r twll (sianel) yn y ffordd ger Dolffanog. Roedd hyn wedi codi sawl gwaith o'r blaen, ac roedd gobaith yn awr y byddai yn cael ei ddatrys.

Roedd angen ymchwilio i dwll yn wal y fynwent yn Abergynolwyn. Dywedodd Cyng Emrys Thompson y byddai yn edrych I mewn I hyn.

8..**Adroddiad Cyng. Elwyn Evans , cynrychiolydd Un Llais Cymru.**

Cafwyd adroddiad gan Cyng Elwyn Evans am brosiect Argyfwng Costau Byw gan Un Llais Cymru er mwyn cynorthwyo Cynghorau Cymuned I gefngoi eu cymunedau. Roedd angen adborth a barn ar hyn, a byddent yn cynnal 3 gweithdy byr ym mis Ebrill a byddai Cyng Elwyn Evans yn cofrestru.

Nodwyd hefyd gan Cyng Beth Lawton fod Cyngor Gwynedd yn cynnal digwyddiadau gyda pwnc costau byw ym mis Ebrill, ac nododd fod yn anffodus nad oedd gwell cydweithio.

**9.Gohebiaeth.**

Trafodwyd y gohebiaeth canlynol;

a) Materion mynwent Eglwys Llanfihangel y Pennant, nodwyd e-bost pellach gan Helen Edwards ynglyn a claddu llwch ei rhieni – roedd hyn wedi ei drafod yn y cyfarfod diwethaf.

Adroddwyd hefyd am gyfarfod a gafwyd yn y fynwent ar y 12fed o Fawrth, pryd y trafodwyd cynllun y fynwent oedd wedi ei baratoi gan Cyng Emrys Thompson. Diolchwyd yn fawr iawn I Emrys am ei waith trwyadl, a byddai hyn o gymorth mawr I'r dyfodol.

b) Nodwyd ohebiaeth am Tai ar Daith' gan Gyngor Gwynedd, sef codi ymwybyddiaeth am amryw o gynlluniau tai, a rhoddwyd manylion digwyddiadau, a oedd yn cynnwys Ty Siamas yn Dolgellau ar y 16eg o Fai 3yp tan 6.30. Dywedodd Cyng Beth Lawton y byddai yn ceisio rhoi y manylion ar wefannau lleol.

c) Nodwyd gwybodaeth a manylion 'Cronfa Cymunedau Eryri' – roedd y gohebiaeth gan Anna Lewis Cyngor Gwynedd.

d) Nodwyd fanylion Cronfa cyfle i bawb yr Urdd - a rhoddwyd posteri yn y Ganolfan.

e) Nodwyd ohebiaeth gan Un Llais Cymru am grwp ffocws cynrychiolwyr ieuanctid cynghorau tref a chymuned. Cytunodd Cyng Eleri Puw a Miriam Webb I fod yn rhan o hyn, a bydai'r Clerc yn danfon y manylion ymlaen.

f) Roedd gwybodaeth Sesiynau Hyfforddiant Un Llais Cymru eisoes wedi ei ddanfon I'r Cynghorwyr. Atgoffwyd fod y cynllun ar wefan

10. **Unrhyw fater arall**

- Roedd angen gwaith ar y ffordd ac ar y pafin ger y fynedfa I'r Eglwys, a byddai'r Clerc yn danfon at Gyngor Gwynedd.
- Roedd angen edrych ar y pot blodau sydd o dan yr arwydd ger y fynedfa I bentref Abergynolwyn.

**DYDDIAD CYFARFOD NESAF; Y CYFARFOD BLYNYDDOL ; Y GANOLFAN, ABERGYNOLWYN NOS LUN 13eg o Fai 2024 , 7.00y.h.**

---

LLANFIHANGEL Y PENNANT COMMUNITY COUNCIL

Minutes of a Council meeting held on Monday evening the 8th of April 2024 at 7.00pm in the Ganolfan, Abergynolwyn.

Present; Cllr. Emrys Thompson, Elwyn Evans, Robert D Jones, Gwynedd Roberts, Steve Lewis, Eleri Puw, Miriam Webb, Bethan Lawton (Gwynedd Council) and Huw T Jones (Clerk)

1. A warm welcome was extended to everyone by Chairman Emrys Thompson.
Apologies were received from Cllr Dylan Jarman.

2. Expressions of interest were invited for issues on the agenda, and Cllr Robert Jones indicated an interest in the application from Meirionnydd Young Farmers' Clubs.
It was noted that there was no request to have presentations from members of the public on an issue on the Agenda.
3. The minutes of the meeting held on the 11th of March were confirmed on the proposal of Cllr. Gwynedd Roberts and seconded by Cllr Eleri Puw.
4. Matters arise
a) Highways/pathways issues - reference was made to the hedge that was overgrowing on Llanegryn Road, and there was confirmation that Gwynedd Council had written again to the owner of number 6.
The idea of making a path from the Heol y Dwr gate up to a bench in the Playground was discussed. Talyllyn Railway had offered to help with the cost. It was decided, following a vote, to ask for a price to get an idea of the cost in the first place. The Clerk would have a word with G L Jones, Playgrounds, Bethesda.
b) Talyllyn Railway - in relation to the slate wagon project, the response of Anna Lewis from Gwynedd Council was read which said that an application could be made under the LleCHI LleNi scheme - the lottery application. They would know if the lottery application is successful by the end of June. We went on to discuss whether it would be possible to

make an application through the Snowdonia Communities Fund, and the Clerk would contact the National Park in the first place, and then Anna Lewis.

c) A tree damaging a wall - there was no update, and this would be on the agenda next time.

d) The Council's asset list - the figure of £19114 was confirmed as in the last meeting minutes, adding £1 for the route between 1 Maesmeillion and Riverside Café.

5. Planning Matters

It was confirmed that there were no issues since the last meeting.

6. Finance Matters

a) Invoices;

Agreed, on the motion of Cllr Robert Jones and seconded by Cllr Miriam Webb To pay the Council's insurance, which is £345.55. It was noted that all the papers had been sent out to the Councilors in advance, and it was confirmed that the cover was sufficient.

It was agreed, on the motion of Cllr Eleri Puw and seconded by Cllr Steve Lewis To pay the One Voice Wales Membership invoice for 2024-25 for a total of £94..

b) Requests for money;

The Meirionnydd Young Farmers Clubs letter was discussed, along with the balance sheet that had been sent to the Councillors. Following a vote, it was agreed, on the proposal of Cllr Gwynedd Roberts and seconded by Eleri Puw to contribute £100. (a declaration of interest was received from Cllr Robert D Jones when this was discussed, and he had signed the form)

c) The correspondence from Audit Wales for the 2023-24 audit was outlined, along with an email from Bleddyn Rhys from Gwynedd Council's Audit Unit.

The 2023-24 accounts were officially presented to the Council by the Clerk. Reference was made to all the records, the finance documents and the summary, and it was confirmed that all was ready to be submitted to the internal Auditor in due course.

The Clerk referred to the Biodiversity Report he had prepared in draft, which he would send to the Councillors.

The balances were confirmed (8.04.24) namely General Account £6311.57 and Business Reserve account £18,538.98.

7. Councilor Beth Lawton's report (Gwynedd Council)

Cllr Beth Lawton referred to a Well-being Grant of £500 which was available for local events, and which could be of help to the Ganolfan.

She confirmed that she had contacted the Highways Department regarding the hole (channel) in the road near Dolffanog. This had come up several times before, and there was now hope that it would be resolved.

A hole in the wall of the cemetery in Abergynolwyn needed to be investigated. Cllr Emrys Thompson said he would look into this.

8..Cllr.'s Report. Elwyn Evans, representative of One Voice Wales.

A report was given by Cllr Elwyn Evans about the Cost of Living Crisis project by One Llais Cymru in order to assist Community Councils to support their communities. Feedback and opinions were needed on this, and they would hold 3 short workshops in April and Cllr Elwyn Evans would register.

It was also noted by Cllr Beth Lawton that Gwynedd Council was holding events with the subject of living costs in April, and she noted that it was unfortunate that there was no better collaboration.

9. Correspondence.

The following correspondence was discussed;

a) Llanfihangel y Pennant Church cemetery matters, a further email from Helen Edwards regarding the burial of her parents' ashes was noted - this had been discussed at the last meeting.

b) It was also reported about a meeting held at the cemetery on the 12th of March, when the plan for the cemetery that had been prepared by Cllr Emrys Thompson was discussed. Emrys was thanked very much for his thorough work, and this would be of great help to the future.

c) Correspondence was noted about 'Tai ar Daith' from Gwynedd Council, which is to raise awareness about various housing schemes, and details of events were given, which included Ty Siamas in Dolgellau on the 16th of May 3pm to 6.30. Cllr Beth Lawton said she would try to put the details on local websites.

d) Information and details of the 'Eryri Communities Fund' were noted - the correspondence was from Anna Lewis Gwynedd Council.

e) The details of the Urdd's opportunity fund for all were noted - and posters were placed in the Centre.

f) Correspondence from Un Llais Cymru regarding a focus group of youth representatives of town and community councils was noted. Cllr Eleri Puw and Miriam Webb agreed to be part of this, and the Clerk would forward the details.

g) The One Voice Wales Training Sessions information had already been sent to the Councillors. It was reminded that the plan is on a website

10. Any other matter

• Work was needed on the road and on the pavement near the entrance to the Church, and the Clerk would deliver to Gwynedd Council.

• It was necessary to look at the flower pot which is under the sign near the entrance to the village of Abergynolwyn.

DATE OF NEXT MEETING; THE ANNUAL MEETING; Y GANOLFAN, ABERGYNOLWYN MONDAY 13th May 2024, 7.00 p.m.